**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd,
Llywodraeth Cymru

21 Rhagfyr 2022

Annwyl Julie,

Gwybodaeth ddilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar ddigartrefedd

Diolch am ymddangos gerbron ein Pwyllgor ar 7 Rhagfyr. Yn y cyfarfod, gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch cyn cyhoeddi ein hadroddiad, oherwydd y risg y bydd achosion ychwanegol o ddigartrefedd yn ystod misoedd y gaeaf i ddod.

Rydym yn cydnabod yr ymdrech aruthrol gan staff sy'n gweithio i awdurdodau lleol, darparwyr cymorth, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid wrth weithredu'r polisi o beidio â gadael unrhyw un allan. Fel yr ydych wedi nodi, mae'r polisi hwn yn ddi-os wedi achub bywydau.

**Pwysau'r gaeaf**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan sawl awdurdod lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 16 Tachwedd. Er bod cefnogaeth i egwyddor y polisi o beidio â gadael unrhyw un allan, roedd yn amlwg bod heriau sylweddol yn wynebu gwasanaethau digartrefedd wrth geisio gweithredu'r polisi y gaeaf hwn a thu hwnt.

Gofynnwn ichi sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod y gaeaf, gan gynnwys, os oes angen, cyllid ychwanegol a chymorth i sicrhau llety dros dro ychwanegol. Gobeithiwn y bydd Rheolwyr Cydberthynas Llywodraeth Cymru y soniasoch wrthym amdanynt, sy'n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, yn eich galluogi i sicrhau bod anghenion penodol awdurdodau lleol unigol yn cael eu nodi a'u diwallu.

Clywsom gan dystion am yr heriau o ran atal digartrefedd ar hyn o bryd. Clywsom mai hysbysiadau troi allan heb fai gan landlordiaid sector preifat, yn ogystal â thor-perthynas, sy'n gyfrifol am nifer sylweddol yr achosion o ddigartrefedd,  Hefyd, mae cryn bryder y gallai pwysau costau byw

gynyddu'r galw am wasanaethau digartrefedd. Clywsom hefyd am y galw am dai fforddiadwy sy’n effeithio ar y gallu i symud pobl allan o lety dros dro, gan gynnwys yr angen i helpu ffoaduriaid. Os bydd nifer y bobl mewn llety dros dro yn parhau i gynyddu, rydym yn pryderu y bydd awdurdodau lleol yn wynebu heriau cynyddol wrth gyflawni’r polisi o beidio â gadael neb allan.

Rydym yn cydnabod bod problem benodol o ran fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat. Rydym wedi clywed tystiolaeth sylweddol o’r effaith negyddol y mae’r diffyg rhwng y Lwfans Tai Lleol a rhenti’r farchnad yn ei chael ar ddigartrefedd a nodwn eich bod wedi dweud wrthym ar 7 Rhagfyr eich bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i ailystyried rhewi cyfraddau’r Lwfans Tai Lleol. Byddwn yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ynghylch effaith lefelau’r Lwfans Tai Lleol ar ddigartrefedd.

**Y dull ‘digartref yn y cartref’**

Yn y cyfarfod, gwnaethom drafod y dull ‘digartref yn y cartref’ a awgrymwyd gan randdeiliaid, lle gall rhai unigolion wneud trefniadau tymor byr ar gyfer llety, fel aros gyda theulu, yn hytrach na mynd i lety dros dro yn ddiofyn, tra’n aros ar y rhestr dai ar gyfer cartref sefydlog. Fel Pwyllgor, rydym o’r farn y gallai hyn wneud gwahaniaeth mawr o ran lleddfu’r pwysau yn y tymor byr, gan roi rhywfaint o hyblygrwydd y mae mawr ei angen ar awdurdodau lleol. Gofynnwn ichi fwrw ymlaen â’r trafodaethau hyn â Shelter Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill fel mater o frys.

**Cysgu ar y stryd**

Fel y mynegwyd yn y cyfarfod ar 7 Rhagfyr, rydym yn pryderu ynghylch nifer cynyddol y bobl sy’n cysgu allan ledled Cymru yn ystod y misoedd diwethaf. Deallwn nad yw'r mater hwn wedi'i gyfyngu i ddarpariaeth tai yn unig a gall fod o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau cymhleth. Rydym yn croesawu’r newid deddfwriaethol diweddar sy’n golygu bod pobl sy’n cysgu ar y stryd bellach yn grŵp ag angen blaenoriaethol yn gyfreithiol. Fodd bynnag, a allwch egluro a oes unrhyw fesurau ychwanegol yn cael eu cymryd y gaeaf hwn i alluogi pobl sy’n wynebu cysgu allan i gael mynediad at lety a chymorth?

**Safonau llety dros dro**

Gwnaethom ofyn ichi am addasrwydd ac ansawdd llety dros dro, ar ôl clywed gan randdeiliaid bod safon cyfran o’r llety hwn yn wael iawn, neu nid yw’n addas ar gyfer yr unigolyn neu’r teulu a leolir yno. Nodwn fod safonau cyfreithiol wedi’u pennu ar gyfer llety dros dro, yn ogystal â chanllawiau statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn. Gwnaethoch nodi mai realiti’r sefyllfa bresennol yw bod yn rhaid defnyddio ystod o lety dros dro, gan gynnwys llety gwely a brecwast a gwestai, a byddai dileu mynediad at y math hwnnw o lety yn sydyn yn dod â risgiau. Gwnaeth y gwelliannau a gynigiwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru i'r *Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru)*, sydd bellach yn cael eu hailystyried yng ngoleuni’r ymatebion i’r ymgynghoriad, dynnu sylw at gymhlethdod y sefyllfa. Byddai’n ddefnyddiol i’r Pwyllgor gael gwybod pa opsiynau y mae Llywodraeth Cymru yn eu trafod yn awr o ran diwygiadau i’r Gorchymyn hwn ac amserlen ar gyfer

mynd ar drywydd yr opsiynau hyn. Byddem hefyd yn gofyn ichi ystyried a oes modd cymryd unrhyw gamau tymor byr, fel diweddaru canllawiau, i sicrhau bod llety dros dro yn bodloni'r safon ofynnol a'i fod hefyd yn addas ar gyfer yr unigolion neu'r teuluoedd sy'n cael eu cartrefu yn ystod yr argyfwng presennol.

**Y cyflenwad tai**

Mae cynyddu'r cyflenwad tai yn ganolog i'r camau i fynd i'r afael â'r argyfwng presennol, a bydd y Pwyllgor yn trafod hyn yn ein hadroddiad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai cynyddu'r cyflenwad tai gymryd cryn amser, gan arwain at nifer o heriau, yn anad dim mynd i'r afael â'r mater ffosffad sy'n gohirio rhywfaint o waith adeiladu. Gwnaethom drafod rhai opsiynau mwy uniongyrchol fel rhoi hyblygrwydd i landlordiaid cymdeithasol brynu eiddo presennol a gwneud defnydd o dai amlfeddiannaeth o dan rai amgylchiadau. Mae angen bwrw ymlaen â'r dulliau hyn yn gyflym ynghyd â datrysiadau lleol eraill a all ganiatáu i bobl adael llety dros dro a byw eu bywydau.

Hefyd, clywsom y gallai landlordiaid yn y sector rhentu preifat fod yn gadael y sector am ystod o resymau. Nodwn y gallai Cynllun Prydlesu Cymru wella mynediad at y sector i bobl sy'n wynebu digartrefedd os yw'n ddeniadol i landlordiaid. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae'r cynllun hwn yn eu cynnig.

**Cynllun Gweithredu i Roi Diwedd ar Ddigartrefedd**

Nodwn eich bod wedi dweud wrthym ar 7 Rhagfyr y byddwch yn diweddaru'r Cynllun Gweithredu i Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yn gynnar y flwyddyn nesaf. Rydym yn croesawu hyn yng ngoleuni'r cyd-destun newidiol sydd wedi effeithio ymhellach ar ddigartrefedd ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu cyntaf yn 2021. Hoffem gael manylion am y camau gweithredu diweddaraf a gofynnwn a fydd unrhyw gamau gweithredu newydd ac, os felly, beth ydynt. Gofynnwn hefyd am amserlen glir ar gyfer y gwaith o ddiweddaru'r cynllun.

O ystyried bod y dyddiad targed a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu bellach wedi mynd heibio, byddai hefyd yn ddefnyddiol inni gael gwybod pryd rydych yn disgwyl i'r 16 awdurdod lleol sy'n weddill gyflwyno eu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym i Lywodraeth Cymru.

**Deddfwriaeth**

Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedasoch eich bod yn cynnig symud yn syth i Bapur Gwyn y flwyddyn nesaf ar gyfer diwygio deddfwriaeth ym maes digartrefedd, ar ôl cynnig Papur Gwyrdd yn flaenorol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro a fydd hyn ar wahân i'r Papur Gwyn a gynigir ar yr hawl i reolaethau digonol o ran tai a rhent.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 26 Ionawr 2023, fel y gall y Pwyllgor ei ystyried yn ei gyfarfod ar 1 Chwefror 2023.

Yn gywir,

Senedd Cymru
Welsh Parliament

John

John Griffiths AS,

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.